Cofnodion Drafft

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 03.11.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Tegid John, Gordon Howie, Ceri Griffiths.

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), . James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Mark Lewis, Simon Turner, Giles Bentham, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 2 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rhai o'r cyhoedd
Eisiau gofyn a fyddai yn iawn i gael prisiau i glerio y darn tir ger cae chwarae Llyn y Felin a datganodd y Cyng. Reg Chapman ei fod yn cyd weithio ar y prosiect hwn.
Eisiau gwybod beth oedd yn digwydd hefo wefan newydd y Cyngor a datganodd y Cadeirydd bod ef ar Cyng. James Maxwell yn mynd i drefnu cyfrfod gyda'r gweinyddwr i drafod y wefan terfynol.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganodd y Cadeirydd ei fod yn gweithio i gael blwch pren i blanhigion i'w gosod o amgylch yr ardal a bod ef ar Cyng. James Maxwell a Reg Chapman yn mynd i gael cyfarfod i drafod gwahanol borsiectau, wedi mynychu y sioe arddio calan gaeaf.
Croesawodd y Cyng. Giles Bentham yn nol fel aelod o'r Cyngor.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Hydref 6ed 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Bod angen cael enw y sawl sydd yn mynd i wneud y gwaith sydd ei angen ei wneud ar y cwrt tenis ynghyd a pris.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd y Cyng. Giles Bentham ddiddordeb yn y mater i wneud gyda'r darn tir ger siop Cae Du Design, Stryd Fawr, Harlech ag fe lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo a nid oedd yn bresennol pan gafodd y mater ei drafod.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – 'roedd wedi mynychu ymweliad safle a oedd wedi ei drefnu gan Grwp Cynefin o'r ystad dai newydd sef Maes Meillion fel Aelod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr 17eg o fis diwethaf, wedi cael gwybod bod toiledau cyhoeddus Min y Don wedi cael eu cau heddiw am bythefnos er mwyn cario allan gwaith uwchraddio arnynt. 'Roedd wedi mynychu y cyfarfod Strategol Ariannol a gafodd ei gynnal ar yr 22ain o fis diwethaf a nid yw y sefyllf ariannol yn edrych yn dda yn Gwynedd ag hwyrach bydd yn rhaid codi treth y Cyngor 13% ond bydd syniad gwell gan y Cyngor ar ol i'r setliad ariannol gael ei dderbyn. 'Roedd wedi cael gwybod bod Cyngor Gwynedd yn mynd i osod amserlen digidol yn llloches bws Bron y Graig ag 'roedd wedi gofyn iddynt a oedd amserlen o'r fath yn mynd i gael eu gosod ger y llochesi bws yn y gwaelod a byddant yn edrych ar hyn yn y dyfodol.

Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen bod ganddo 27 o gyfrfodydd y mis hwn, ei fod wedi cael ei benodi yn Gadeirydd Grwp Plaid Cymru Gwynedd, bydd yr adroddiad CPR yn cael ei rhyddhau yfory, cyllideb y Cyngor ddim yn edrych yn dda. Mae Un Llais Cymru yn mynd i gael cyfarfodydd hefo Llywodreth Cymru ynglyn a cynnal gwasanaethau hybrid. Mae Cyngor Gwynedd yn mynd i osod amserlen digidol yn lloches bws Bron y Graig, yn falch bod y trenau yn cario ymlaen gyda amserlen yr haf yn ystod tymor y gaeaf. 'Roedd wedi bod o amgylch hefo'r ymgyrch ail gylchu, wedi cael cwynion o or-yrru ar Ffordd Morfa a bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud arolwg ag hefyd yr Heddlu ynglyn a hyn, wedi derbyn prisiau am arwyddion fflachio ag 'roedd yn pwyso i gael croesfan ger groesffordd Ty Canol a bod ganddo gyfarfod gyda Swyddog o Gyngor Gwynedd ynghyd ar Heddlu i drafod y materion hyn. Wedi cael cyflwyniad gan Grwp Cynefin o ystad dai Maes Meillion, wedi mynychu y sioe calan gaeaf. 'Roedd ymddygiad plant yn bryder iddo oherwydd bod rhai yn mynd o gwmpas ar feics heb oleuadau ag ar scwteri trydan ar y ffordd. 'Roedd etholwraig yn pryderu ynglyn ar mater bod cwynion bod y bin ysbwriel yn y stryd fawr wedi ei thynnu i ffwrdd ag eisiau gwybod a oedd leoliad arall ar gael. 'Roedd wedi mynychu cyfarfod Ardal Ni yn Dyffryn Ardudwy ag yn falch o weld y Cyng. Martin Hughes a Reg Chapman yna.

**<u>MATERION YN CODI</u>**

**<u>Cynllun Cyllideb</u>**

Adroddwyd bod £26,114.33 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £48,678.17 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**<u>Nadolig 2025</u>**

Cafwyd y datganiad canlynol gan y Cyng. Simon Turner a Mark Lewis ynglyn ar digwyddiadau nadolig - Eleni, bydd yr orymdaith yn dechrau yn maes parcio Bron Y Craig Isaf ac yn dod i ben yn maes parcio y Castell. Mae Roc Ardudwy wedi cynnig yn hael i osod gazebo, llwyfan, a chyfarpar AV yn maes parcio y Castell. Bydd rhain yn cael eu defnyddio gan gorau Cana mi Gei a Chôr Meibion Ardudwy, plant Ysgol Ardudwy a Ysgol Tanycastell, a'r act Tarddiad Tom Jones. Mae taflenni a phosteri wedi cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio darlun ar y clawr cymunedol gan Amelia McLoughlin, 9 oed, o Ysgol Tanycastell. Diolch hefyd i Helen Williams o Visit Harlech am ddylunio'r deunydd marchnata argraffedig a chyfryngau cymdeithasol. Mae costau argraffu wedi cael eu hariannu'n hael gan Gymdeithas Twristiaeth Harlech.Mae Murmur y Môr Cyf wedi rhoddion deunyddiau crefft i blant Ysgol Ardudwy a Ysgol Llanbedr i wneud lanterenni thema Nadolig ar gyfer yr orymdaith. Bydd pob plentyn ysgol yn Harlech, Talsarnau, a Llanbedr yn cael taflen i fynd adref yn hysbysebu'r orymdaith. Mae'r rhoddion ar gyfer goleuadau newydd y Stryd Fawr wedi cyrraedd £3,300 erbyn hyn ac nid yw rhagor o gyfraniadau'n debygol ar gyfer 2025. Mae Scottish Power wedi cynnig yn garedig i helpu gyda darparu cherry picker a gweithlu i helpu gyda chodi'r goleuadau newydd ar draws y stryd fawr. Mae Steve Acton o Y Copa Bistro hefyd wedi cynnig yn garedig i gynorthwyo Mark Lewis a Simon Turner wrth godi goleuadau'r stryd fawr. Yn ogystal, mae Cyngor Cymuned Harlech wedi prynu braids oleuadau LED newydd gan Blachere Illuminations. Bydd y braids newydd a'r fframiau goleuo presennol yn cael eu hatodi i oleuadau stryd yn gwaelod Harlech ag yn y dref gan Gyngor Sir Gwynedd. Hefyd, mae saith goleuni stryd ychwanegol wedi cael eu dewis i gael allfa pŵer wedi'i gosod i gefnogi mwy o olau Nadolig yn gwaelod Harlech. I roi anrheg nadolig i blant lleol ar y noson, mae Cyngor Cymuned Harlech wedi prynu siocledi thema Nadolig Lindt i Sion Corn eu rhannu. Mae PCSO Harlech a'r Heddlu lleol wedi cael gwybod am y digwyddiad ac yn mynychu. Bydd patrymau eira Nadolig wedi'i daflu ar wal y Castell ynghyd â neges Nadolig Llawen gan Gyngor Cymuned Harlech. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan Gymdeithas Twristiaeth Harlech..

Cytunwyd i wariant gael ei wneud i archebu mwy o addysyddion pwer ag hefyd anrhegion sion corn i'r plant.

**<u>Llwybr Natur Bron y Graig</u>**

Cafwyd wybod gan y Cyng. James Maxwell bod ddim cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda'r Ymddiriedolaeth Coedwigaeth a bod cyfarfod arall wedi ei drefnu at y 7ed o'r mis hwn ag hefyd ei fod yn aros am adroddiad gan Hywyn Williams

**Y Cwrt Tenis**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn yr ateb canlynol ynglyn a talu treth ar y safle uchod ag 'roedd y Swyddog Trethi yn datgan nid oes modd i Gynghorau dderbyn rhyddhad statudol ar gyfer trethi, os na oes cyfarwyddyd penodedig. Hefyd yn datgan y ffordd o amgylch hyn, sydd yn cael ei ddefnyddio gan sawl Cyngor, yw i osod elusen neu gwmni di-elw 'hyd braich' i fyny ar gyfer defnyddio asedau sydd er budd y gymuned leol. Gall y 'trefniant' yma geisio am gymorth sydd ddim ar gael i'r Cyngor Cymuned. (gall y cyrff yma geisio am grantiau ac arian cyhoeddus ar gyfer hybu iechyd ayb). Cafwyd wybod gan y Cadeirydd bod pris wedi ei dderbyn gan Dylan Trehearn tuag at wneud y gwaith ar y safle uchod. 'Roedd pawb yn hapus gyda'r pris hwn.

**Llochesi Bws**
Cafwyd wybod bod ddim manylion pellach ar gael ynglyn ar mater uchod.

**Y Las Ynys Fawr**
Cafwyd wybod bod ddim manylion pellach ar gael ynglyn ar mater uchod ond bod y Cadeirydd mewn trafodaethau gyda Chyfreithiwr ynglyn ar Les. 'Roedd y Cadeirydd wedi siarad gyda Cyfreithiwr a bod cyfarfod wedi ei drefnu ganddynt.

**Gwefan y Cyngor**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn copi gan Mr. Owen Brown o sut fyddai y gwefan yn edrych ar y diwedd a dangosodd hwn i bawb. Adroddodd y Cadeirydd bod ef ar Cyng. James Maxwell yn mynd i gynnal cyfarfod gyda Mr. Brown cyn iddo drosglwyddo y wefan drosodd i'r Cyngor.

**Toiledau Cyhoeddus ger Gwesty'r Queens**
Ddim byd pellach i adrodd ynglyn ar mater uchod.

**HAL**
Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglyn ar sefyllfa diweddaraf i wneud gyda HAL - Mae Celtic Collection yn parhau â'u diddordeb yn y safle ac mae mwy o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal.
Yr wyf wedi cael cyfarfod gyda arweinydd Cyngor Gwynedd ac swyddogion i bwysleisio pwysigrwydd y datblygiad economaidd hwn i Harlech. Maent yn gefnogol iawn i'r prosiect, fel mae Llywodraeth Cymru hefyd; cefais gyfarfod gyda Visit Wales, y corff cyfrifol am dwristiaeth o dan Lywodraeth Cymru.
Maen't wedi cynnig eu cefnogaeth ariannol a byddant yn talu'r holl ffioedd cyfreithiol sydd eu hangen i helpu ein Cyngor Cymuned i sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol sy'n galluogi'r cyngor i drosglwyddo perchnogaeth y safle oddi wrth HAL a darparu teitl clir.
Bydd hyn yn rhoi'r ased tir i'n Cymuned gan y bydd y cwmni'n cael ei berchen gyfan gan y Cyngor.
Bydd y Cyngor yn elwa ar unrhyw daliadau rhent tir gan y gwesty i'r CIC unwaith y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau.
Mae'r rhain i gyd yn gamau paratoi ar hyd ffordd hir cyn i unrhyw ddatblygiad gael ei gwblhau.
Bwriedir cyflwyno cynigion ar gyfer sefydlu'r CIC i gyfarfod Rhagfyr o'r Cyngor.

**Ethol Cynghorydd**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn hysbysiad gan y Swyddog Etholiadol yn nodi y byddai etholiad ar gyfer y sedd wag sy'n bodoli ar y Cyngor yn cael ei gynnal ar 27ain o'r mis hwn pe bai mwy na un enw yn cael ei dderbyn ganddo erbyn 4.00 p.m. ar y 31ain o fis diwethaf. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi cael gwybod bod Mr. Giles Bentham wedi cael ei ethol yn ddiwrthwynebiad i fod yn aelod o'r Cyngor.

**Cyfarfod Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian – 21.11.25**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoid y mater uchod ar agenda y Cyngor ar gais y Cyng. Martin Hughes a cytunwyd os oedd gan unrhyw un fater i'w drafod yn y cyfarfod uchod iddynt ei anfon i'r Clerc erbyn y 10ed o'r mis hwn.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Caniatâd Adeilad Rhestredig i amnewid ffenestri a drysau sydd wedi'u difrodi gan storm gyda ffenestri a drysau alwminiwm gwydr-dwbl newydd i gyd-fynd â'r rhai presennol Coleg Harlech, Harlech (NP5/66/L20C)**

Cefnogi y cais hwn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £50,612.90 yn y cyfrif rhedegol a £115,100.02 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. G. J. Williams | - £296.00 - | torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed |
| Y Lleng Prydeinig | - £20.00 - | torch pabi coch |
| Cyngor Gwynedd | - £12,000.00 - | cyfraniad i gadw toiledau cyhoeddus yn agored |
| Un Llais Cymru | - £42.00 - | cwrs hyfforddiant Cyng. James Maxwell |
| Mr. Lee Warwick | - £265.69 - | glanhau toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa x 2 |
| Mr. Peter Havelock | - £300.00 - | glanhau toiledau cyhoeddus ger y neuadd goffa x 2 |
| Mr. Meirion Griffiths | - £2,290.00 – | torri gwair y llwybrau cyhoeddus ag o amgylch y rhandiroedd |
| Mr. Meirion Griffiths | - £2,185.00 - | torri gwair y fynwent gyhoeddus ar maes parcio |
| Mr. Simon Turner | £253.17 - | goleuadau nadolig |

Cytunwyd trosglwyddo £1,000 i gyfrif banc Cae Chwarae Brenin Sior fel benthyciad.

Rhoddwyd ganiatad i'r Clerc archebu pad newydd i'r diffibriliadur sydd yn y kiosk ger Capel Engedi oherwydd bod yr un presennol yn dod i ben mis nesa.

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. James Maxwell a wnaeth y Cyng. Mark Lewis gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Ddim wedi dod i mewn ers cyfarfod diwethaf y Cyngor

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Blachere Illuminations - | £354.24 - | goleuadau nadolig (talwyd 5.11.25) |
| Mr. Simon Turner | £499.00 – | nwyddau i gorymdaith nadolig (talwyd 5.11.25) |
| Catrin Soraya Williams – | £145.00 - | gwasanaeth cyfieithu |

**GOHEBIAETH**

**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd gwaith uwchraddio ar toiledau cyhoeddus Min y Don yn cael ei gario allan, byddant yn tyllu a newid cebl goleuadau stryd ar yr A496 o flaen gwesty'r Queens a bydd y Tim Tacluso Ardal Ni yma rhwng yr 17eg ar 21ain o'r mis hwn. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn e-bost gan Aelod Cabinet yr Adran uchod yn gofyn i'r Cyngor a fyddai yn bosib iddynt gymeryd rhan yn yr ymgynghoriad ynglyn ar arolwg ar Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd drwy lenwi yr holiadur erbyn y 30ain o'r mis hwn. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Trwyddedu**

Wedi derbyn e-bost gan yr adran uchod ynglyn ar ymgynghoriad Cais am Drwydded Eiddo Y Copa Limited, 1 Castle Court, Stryd Fawr, Harlech a dylai unrhyw sylwadau ynglyn ar cais hwn gael ei dderbyn ganddynt ddim hwyrach na'r 20ed o'r mis hwn. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi y cais hwn.

**Un Llais Cymru**
Wedi derbyn  e-bost gan yr uchod ynglyn a dyddiadau hyfforddiant rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr er gwybodaeth i'r Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Un Llais Cymru**

Wedi derbyn copi o gofnodion cyfarfod pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd ar yr 21ain o fis diwethaf er gwybodaeth i'r Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Un Llais Cymru**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru er gwybodaeth i'r Cyngor ag yn datgan byddant yn ymateb i'r Ymgynghoriad hwn ag yn gwahodd barn y Cyngor erbyn y 6ed o Ionawr 2026. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen yn barod i bob Aelod.

**Mrs Myfanwy Jones**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn beth oedd y diweddariad ynglyn a cario allan gwaith i'r tir gyferbyn a cae chwarae Llyn y Felin. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i'r Cyng. James Maxwell a Reg Chapman. Cafwyd wybod gan y Cyng. Reg Chapman ei fod wedi cysylltu a Mrs Myfanwy Jones ynglyn ar mater yma yn barod.

**ARWYDDWYD.............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.....................................................**